| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mai 2016** |
| **Aelod sy'n Cyflwyno:** | **Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio/ Cydlynydd Archwilio a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor 2015/16** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio i'r Cyngor ar gyfer 2015/16.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I gyflwyno adroddiad blynyddol am weithgareddau'r Pwyllgorau Archwilio yn 2015/16 i'r Cyngor.

2.2 Cydymffurfio gydag Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn am eu gwaith a gwneud argymhellion ar raglenni gwaith y dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yn briodol.

## 3. Beth yw'r Argymhelliad?

Bod y Cyngor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio ar gyfer 2015/16 ac yn cyflwyno sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn mynnu bod pwyllgorau archwilio'r Awdurdod yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor Sir.

4.2 Mae Adroddiad Blynyddol y flwyddyn yn dilyn fformat tebyg i'r un a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn rhoi trosolwg cryno i'r darllenydd o sut mae archwilio yn gweithredu, a'r gwaith mae archwilio wedi ei wneud i geisio cefnogi'r gwaith o gyflawni saith blaenoriaeth corfforaethol y Cyngor yn ogystal â gwaith arall a wnaed gan aelodau archwilio a grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae'r adroddiad hefyd yn dweud wrth drigolion sut y gallant gymryd rhan a chyfrannu at y broses archwilio. Mae copi o'r adroddiad drafft i'w weld yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn. Bydd yr adroddiad ar gael maes o law ar wefan y Cyngor.

4.3 Yn ystod 2015/16 mae archwilio wedi bod yn gyfrifol am ystod o waith archwilio cyn gwneud penderfyniadau ac ar ôl gwneud penderfyniadau. Mae archwilio hefyd wedi bod yn rhan rheolaidd o waith monitro perfformiad, wedi cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori a gwahoddwyd nifer o sefydliadau allanol neu bartner i gyfarfod gyda phwyllgorau i drafod meysydd o ddiddordeb neu bryder cyffredin.

4.4 Roedd tri phenderfyniad ar wahân gan y Cabinet yn destun ceisiadau galw i mewn i'w harchwilio yn ystod y flwyddyn. Mae pob un o'r ceisiadau 'galw i mewn' yn ymwneud â phenderfyniadau Cabinet i gau ysgolion. Er fod archwilio wedi penderfynu nad oedd yr un o'r penderfyniadau hyn yn deilwng i gael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hailystyried, rhoddwyd ystyriaeth lawn a manwl i'r rhesymau dros eu galw i mewn gyda chynrychiolwyr o gyrff llywodraethu perthnasol yn cael eu gwahodd i fynd i'r afael â'r pwyllgorau, cyn cyrraedd unrhyw gasgliadau.

4.5 Mae'r adroddiad amgaeëdig yn cynnwys crynodeb o benderfyniadau pob pwyllgor archwilio, a hefyd yn manylu ar beth o waith Torri'r Brethyn Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd i archwilio effaith penderfyniadau cyllidebol 'Torri'r Brethyn' ar gymunedau a thrigolion Sir Ddinbych ar ôl eu gweithredu. Mae hefyd yn amlinellu cynnydd gwaith Gofal Cymdeithasol Oedolion mewnol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

4.6 Fel yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys ffurflen sy'n galluogi'r cyhoedd i awgrymu meysydd neu wasanaethau i'w hystyried gan archwilio. Y rhesymeg y tu ôl i'r ffurflen hon yw ceisio ennyn diddordeb y cyhoedd a gwella rhyngweithio rhwng trigolion ag archwilio yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol.

4.7 Wrth ystyried cais am fater i'w archwilio, boed yn gais gan aelod etholedig, swyddog neu gan y cyhoedd yn gyffredinol, mae'r meini prawf canlynol yn berthnasol i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio wrth iddynt benderfynu a yw'r eitemau angen eu harchwilio:

- a yw'n fater o ddiddordeb i'r cyhoedd?
- oes gan Archwilio y gallu i ddylanwadu neu newid pethau?
- ydi'r gwaith yn gysylltiedig â gwasanaeth sy'n tanberfformio?
- ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- oes unrhyw un arall yn edrych arno?

4.8 Mae'n bleser adrodd bod mwy o aelodau'r cyhoedd wedi mynychu cyfarfodydd archwilio yn ystod 2015/16 nag yn y blynyddoedd blaenorol, er bod hyn yn fwy na thebyg oherwydd natur ddadleuol y pwnc dan drafodaeth. Yn ogystal, derbyniwyd nifer o sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i bwyllgorau geisio eu codi wrth drafod eitemau penodol ar yr agenda.

4.9 Cyfeiriwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd i astudiaeth cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar archwilio yng Nghymru, *Craffu Da*? *Cwestiwn Da!* Mae'r adroddiad hwn wedi dod i'r casgliad nad oedd angen cryfhau'r rôl archwilio ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Mae hefyd yn pwysleisio manteision defnyddio archwilio fel modd ar gyfer

ymgysylltu â thrigolion a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gwneud penderfyniadau gwell sy'n arwain at ganlyniadau gwell i drigolion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae archwilio wedi dechrau gwella ei waith yn y maes hwn. Er enghraifft, yn ogystal â gwahodd trigolion i awgrymu meysydd i'w harchwilio, y maent hefyd wedi eu gwahodd trwy gyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg, i gyflwyno tystiolaeth i Torri Brethyn Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae archwilio hefyd wedi parhau i gwrdd â nifer o sefydliadau partner a chwmnïau/darparwyr allanol i drafod materion o bryder i drigolion ac i gymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori y maent yn ei wneud.

4.10 O ganlyniad i adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru mae cyfres o 'Ganlyniadau a Nodweddion Craffu Effeithiol' wedi'u datblygu a'u mabwysiadu ar sail Cymru gyfan. Nod y nodweddion hyn yw cefnogi'r broses o gyflwyno canlyniadau gwell, drwy wneud penderfyniadau gwell, yn seiliedig ar ymgysylltiad gwell â thrigolion a rhanddeiliaid. Mae disgwyl i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i werthuso effeithiolrwydd eu swyddogaethau archwilio yn erbyn y nodweddion hyn yn rheolaidd. Yn ddiweddar, mae Sir Ddinbych wedi ymgymryd â hunan arfarniad yn erbyn y nodweddion a'r themâu cyffredinol sy'n dod i'r amlwg o'r hunan arfarniad sydd wedi'i amlinellu yn yr Adroddiad Blynyddol sydd ynghlwm.

4.11 Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd archwilio yn craffu casgliadau'r ymarferiad hunan arfarnu yn fwy manwl gan ddefnyddio'r wybodaeth honno i gryfhau'r swyddogaeth. Gyda chyflwyno Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bydd gan archwilio, wrth symud ymlaen, rôl i'w chwarae wrth fonitro cynlluniau'r Cyngor i ymgorffori nodau ac egwyddorion y Ddeddf i'w fusnes o ddydd i ddydd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau, dymuniadau trigolion ac o fewn cyllideb.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o anfon adroddiadau pwyllgor rheolaidd i gynghorwyr sir a derbynwyr eraill, felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'i gyhoeddi. Bydd yr adroddiad blynyddol ar ôl ei gymeradwyo a'i gyfieithu yn cael ei ddosbarthu i lyfrgelloedd, Siopau un Alwad, a chynghorau tref a chymuned, gyda fersiynau electronig yn cael eu hanfon at holl gynghorau ysgol o fewn y sir. Bydd ar gael hefyd ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor.

6.2 Telir unrhyw gostau mewn perthynas â gwaith y grwpiau tasg a gorffen o fewn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Dylai archwilio polisïau, gweithdrefnau a phenderfyniadau'r Cyngor liniaru'r risg o gael unrhyw effaith andwyol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae aelodau'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi bod yn ymwneud â drafftio'r Adroddiad Blynyddol ac ymgynghorwyd â nhw ar ei gynnwys.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Fel y soniwyd ym mharagraff 6 uchod bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r adroddiad wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol, fel y bydd unrhyw gostau sy'n deillio o sefydlu grwpiau tasg a gorffen.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risgiau wedi eu canfod o ran ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae erthygl 6.3.7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn mynnu bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar eu gweithgareddau i'r Cyngor llawn.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Archwilio
Ffôn: 01824 712554
dcc_admin@denbighshire.gov.uk